Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

Capsiwl Amser Digidol o COVID

Cofnodi straeon eich disgyblion yn ystod y pandemig

Gyda chymorth eich disgyblion, rydym am greu capsiwl amser digidol er mwyn i genedlaethau'r dyfodol gofio eu stori

Ar hyd y canrifoedd, mae dyddiaduron, ffotograffau, dogfennau a recordiadau wedi ein helpu i ddeall cyfnodau hanesyddol eraill a sut mae pobl yn byw eu bywydau o ddydd i ddydd, yn arbennig felly mewn cyfnod o argyfwng.

Gyda'ch cymorth chi, hoffem greu capsiwl amser digidol ar gyfer ein gwefan, fel y gallwn ni a chenedlaethau'r dyfodol ddeall stori eich disgyblion yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Gwyliwch ein fideo am y prosiect

Cynhwysion y Capsiwl Amser

Dyma rai awgrymiadau o ran “cynhwysion” ar gyfer prosiect capsiwl amser eich disgyblion.

1. **Gofynnwch i’ch disgyblion gymryd ffotograff neu recordiad o’r 3 hoff weithgaredd sydd wedi dod â hapusrwydd iddyn nhw yn ystod cyfnod y cloi.** Awgrymiadau:
   - mynd am dro/ar gefn beic yn ddyddiol
   - treulio mwy o amser gyda’u teulu
   - bod yn greadigol

2. **I bwy rydych chi’n ddiolchgar? Y GIG? Gweithwyr Allweddol? Rhieni? Gofynnwch i’ch disgyblion gofnodi pethau fydd yn neu hatgoffa o pwy wnaeth eu helpu trwy’r pandemig.** Awgrymiadau:
   - Cymryd ffotograff o’r enfysau maent wedi eu creu
   - Tynnu llun o bobl rydych chi’n ddiolchgar amdanynt

3. **Beth yw barn eich teulu chi? Gofynnwch i’ch disgyblion gyfweld aelod o’r teulu gartref neu o bell ers i’r pandemig cychwyn. Gallant ddangos eu sgiliau digidol trwy recordio rhai o’r cyfweliadau hanes llafar yma.** Awgrymiadau o ran cwestiynau:
   - Sut mae bywydau aelodau o’r teulu wedi newid ers cyfnod y cloi?
   - Beth sy’n eu gwneud yn hapus/trist yn ystod yr amser heriol hwn?

Cyhoeddwch eich Capsiwl Amser ar wefan Casgliad y Werin Cymru

Edrychwch ar ein canllawiau yn y fideo ar Sut i uwchlwytho i wefan Casgliad y Werin Cymru

Gall disgyblion **Cyfnod Allweddol 2** gasglu eu cynnwys nawr, a gallwch ei lwytho i’r wefan gyda’ch gilydd yn yr ystafell ddosbarth pan fyddant wedi dychwelyd i’r ysgol.

Gall disgyblion **Cyfnod Allweddol 3 & 4** ddatblygu a dangos eu sgiliau digidol trwy uwchlwytho cynnwys i’r wefan eu hunain

Pwysig: Cofiwch ychwanegu’r tag 'Capsiwl-Amser-COVID' a ‘COVID-Time-Capsule’ i’ch cynnwys pan fyddwch yn cyhoeddi!

Cymorth ar-lein gyda'ch prosiect:

Darllenwch ein Canllawiau Hanes Llafar i Ysgolion a grewyd mewn partneriaeth gyda'r Gymdeithas Hanes Llafar. Mae yma awgrymiadau ynghylch sut i gyfweld y gallwch eu rhannu gyda'ch disgyblion.

Mae ein Canllawiau hefyd ar gael ar ein gwefan os ydych angen cymorth pellach gydag uwchlwytho prosiect capsiwl amser eich disgyblion.

Byddwch yn rhan o Hanes Cymru

Unwaith y bydd cynnwys eich disgyblion ar ein gwefan, bydd yn helpu cenedlaethau'r dyfodol i ddeall sut y gwnaeth Cymru ymdopi yn ystod y cyfnod ansicr hwn.

Gweithio gyda'n partneriaid

Rydym hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid i gasglu straeon ac atgofion cyfnod y cloi er mwyn i ni a chenedlaethau'r dyfodol gofio amdano. Bydd rhai o'r straeon hyn yn ymddangos ar ein gwefan yn ystod yr wythnosau a'r misoedd sydd i ddod.

Dysgwch fwy am eu prosiectau:

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae Casgliad y Werin Cymru wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei arwain gan bartneriaeth ffederal sy'n cynnwys tri sefydliad treftadaeth cenedlaethol: Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.